GORFFENNAF 2012

NEWYDDION

CCG

CYFLE I ENNILL £300

Newidiadau i fudd-dal tai -
beth yw'r effaith arno chi?

Diweddariad SATC

CARTREFI CYMUNEDOL
GWYNEDD

Eich budd-daliadau

Rydym wedi adrodd o'r blaen yn Newyddion CCG am y newidiadau sy'n dod i fudd-daliadau ac mae'n bwysig eich bod chi fel tenant yn deall beth fydd hyn yn golygu i chi.

Fis Mawrth eleni fe ddaeth y Mesur Diwygio Lles yn rhan o ddeddf Prydain - mae hyn yn golygu nifer o newidiadau i fudd-daliadau y mae pobl yn eu cael a sut y byddent yn eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys budd-dal tai.

Felly beth yw'r newidiadau i'r budd-dal tai?

O Ebrill 2013 ymlaen

- Bydd y nifer o lofftydd sy'n cael eu defnyddio mewn cartrefi cymdeithasol yn gallu effeithio ar eich budd-dal. Mae hyn yn golygu os oes gennych chi fwy o lofftydd na sydd eu hangen arnoch, byddwch yn cael eich ystyried fel bod yn tanddefnyddio eich cartref ac fe all eich budd-dal tai gael ei dorri.
- Os oes gennych un llofft sbâr, bydd 14% o doriad yn eich budd-dal, ac os nad ydych chi'n defnyddio 2 lofft neu fwy, bydd toriad o 25%.
- Dim ond ar denantiaid o oedran gwaith y bydd hyn yn effeithio.
- Bydd cap yn cael ei osod ar gyfanswm pob budd-dal sy'n golygu mai'r uchafswm o fudd-dal y bydd teulu cyfan yn ei gael fydd £500 yr wythnos neu £350 ar gyfer person sengl.

Rhwng Ebrill 2014 – Rhagfyr 2017

- Bydd y Credyd Cynhwysol (Universal Credit) yn cael ei gyflwyno mewn camau, ar draws Prydain. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud un taliad bob mis i bawb sy'n hawlio budd-daliadau yn hytrach na thalu pob un ar wahân.
- Fe fydd y system Credyd Cynhwysol hefyd yn golygu y bydd budd-dal tai yn cael ei dalu i'r tenant yn syth ac nid i'r landlord, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r tenant dalu'r rhent i'w landlord.

Dim ond rhai o'r newidiadau yw'r rhain, ac mae'n debyg y bydd pob budd-dal yn newid mewn rhyw ffordd. Felly rydym yn awyddus iawn i wneud yn siŵr fod pobl yn paratoi ac yn deall beth sy'n newid. Os ydych chi eisiau gwybod mwy cysylltwch â ni ar 0300 123 8084 neu Shelter Cymru ar 0845 075 5005 neu ewch i www.sheltercymru.org.uk.

Dod i adnabod ein gilydd yn well – a chyfle i ennill £300!

Mae CCG yn llunio proffil o'i denantiaid am y tro cyntaf, ac rydym am i chi gymryd rhan! Rydym yn gofyn i denantiaid lenwi'r holiadur 'Gweithio Gyda'n Gilydd' am gyfle i ennill talebau siopa gwerth £300, £125 a £75.

Y prif reswm y tu cefn i'r prosiect yw bod newidiadau mawr yn cael eu gwneud i'r system lles, newidiadau all effeithio ar lawer o'n tenantiaid. Fel y gallwn ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol rydym angen dod i adnabod ein tenantiaid yn well a deall eu hamgylchiadau.

Mae'r wybodaeth rydym yn ofyn amdano yn amrywio o'r nifer o bobl sy'n byw yn eich cartref i'r ffyrdd yr hoffech i ni gyfathrebu efo chi, i wybodaeth am anableddau neu broblemau iechyd sydd gan unrhyw un sy'n byw gyda chi. Fe ddylech fod wedi derbyn yr holiadur yn barod, os nad ydych chi, ac os ydych angen unrhyw help i'w gwblhau, rhowch wybod i ni.

Am fwy o wybodaeth am 'Gweithio Gyda'n Gilydd' cysylltwch gyda Tamany W. Jones ar 0300 123 8084 neu ymholiadau@ccgwynedd.org.uk.

Byddwn yn cyhoeddi enillwyr y gystadleuaeth talebau ar ein tudalen Facebook (www.facebook.com/ccgwynedd) ac ar Twitter @CartrefiGwynedd ar y 1af o Dachwedd.

SATC

Mae gwelliannau SATC i'w gweld ar hyd a lled y sir erbyn hyn wrth i ni wneud gwelliannau tu mewn a thu allan i gartrefi!

HYD YMA RYDYM WEDI GOSOD:

6,803 ffenestr
3,201 drws newydd
967 cegin fodern
969 ystafell ymolchi
2,131 atig wedi eu hinsiwleiddio

Er mwyn eich helpu drwy bob cam o'r gwaith yn eich cartref, mae gan CCG a'n contractwyr dîm o Swyddogion Cyswllt Tenantiaid, neu TLO fel maent yn cael eu galw. Eich TLO yw eich cyswllt cyntaf drwy gydol y gwaith. Gallant ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiad sydd gennych chi a sicrhau eich bod yn gwybod be sy'n digwydd.

Bydd eich TLO yn eich helpu yn ystod y gwaith gwella. Ond, fe allwch chi ein helpu ni i wneud yn siŵr fod y gwelliannau yn cael eu cwblhau mor esmwyth a chyflym â phosib drwy adael gweithwyr i mewn i'ch cartref. Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi mynediad ar yr adegau rydych wedi cytuno iddynt. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer ymweliadau TLO, arolwg neu pan mae'r gwaith yn dechrau. Os na fyddwch chi'n gwneud hyn, bydd yn arwain at oedi yn y gwaith, nid yn unig i chi ond i lawer o denantiaid eraill hefyd.

Os ydych chi'n derbyn llythyr, cerdyn galw neu neges ynglŷn ag ymweliadau, arolwg neu ar gyfer y gwaith ac mae'r amser yn anghyfleus, cysylltwch â'ch TLO mor fuan â phosib i aildrefnu.



Sioned Morris, TLO CCG

Gadewch i ni wybod yn syth os nad ydych i'n gallu cadw apwyntiad neu os oes rhaid i chi adael eich cartref yn ystod y gwaith.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ffôn, neges testun neu e-bost eich TLO ar y cerdyn galw neu'r llythyr, neu ffoniwch CCG ar 0300 123 8084.

Ydy eich cartref yn rhy fawr i chi?

Weithiau mae sefyllfa bersonol tenant yn newid ac efallai nad yw eu cartref yn cwrdd â'u hanghenion bellach.

Pethau y gallwch ystyried:

- Ydych chi'n byw ar eich pen eich hun?
- Ydych chi'n poeni am gostau gwresogi eich cartref?
- Ydych chi'n ei chael hi'n anodd glanhau eich cartref neu edrych ar ôl yr ardd?
- A hoffech chi fyw yn agosach at eich teulu neu ffrindiau?
- Oes gennych chi anabledd neu anghenion arbennig ac y byddai'n haws i chi fyw mewn cartref sydd wedi ei addasu?

Mae'n bosib y gallwn ni ddod o hyd i gartref sy'n cwrdd â'ch anghenion. Efallai y byddai cartref llai yn haws i chi ymdopi ag o ac fe all y rhent, treth cyngor a chostau gwresogi hefyd fod llai.

Fe allwn roi cyngor a gwybodaeth i chi ynglŷn â symud i gartref arall neu ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych am y broses. Os ydych yn penderfynu cysylltu â ni i holi am symud a'ch bod yn newid eich meddwl ar unrhyw adeg yn ystod y broses, ni fydd dim pwysau arnoch chi i symud ac fe gewch aros yn eich cartref presennol.

Os oes gennych chi ddiddordeb clywed mwy am symud tŷ, cysylltwch â'ch Swyddog Cyswllt Tenantiaid (TLO) neu CCG ar 0300 123 8084 neu ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Ar y clawr, Helena Foulkes a Hefin Williams o Gaernarfon gyda'u merched Ella Gwenno a Molly Marie, sydd newydd symud yn ôl i'w cartref yn dilyn gwaith gwella sylweddol.

Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel…

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bryder i lawer ac yn un o'r prif faterion ddaeth i'r amlwg ymysg tenantiaid cyn i CCG gael ei sefydlu.

Yr adeg honno roedd lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn un o'n hymrwymiadau i denantiaid, ac rydym bellach yn gweithio i wneud ein cymunedau yn brafiach.

Dros y ddwy flynedd ddiweddaf rydym wedi adeiladu tîm i weithio yn ein cymunedau ac i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda staff y Gwasanaeth Bro wedi eu lleoli ym mhob un o'n swyddfeydd ardal. Mae eu gwaith yn amrywio o ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol i helpu tenantiaid gynnal tenantiaethau a bod yn rhagweithiol mewn prosiectau i wella cymunedau a stadau.

Mae ymddygiad sy'n niwsans ac yn wrthgymdeithasol yn gallu achosi pryder go iawn i bobl sydd am fyw eu bywydau o ddydd i ddydd heb ymyrraeth.

Enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Aflonyddwch
- Cam-drin llafar, dychryn, trais a bygwth trais
- Ymosodiadau corfforol
- Ymddygiad afreolus ac aflonyddu cyhoeddus
- Fandaliaeth, ysbwriel, graffiti a dympio ysbwriel yn anghyfreithlon
- Sŵn uchel eithafol a chŵn yn cyfarth
- Camddefnydd alcohol a/neu gyffuriau

Beth allwch chi wneud i geisio datrys y sefyllfa os yw'n effeithio arnoch chi:

- Ceisio datrys y sefyllfa trwy gysylltu â'r person sy'n achosi'r niwsans
- Os nad yw hyn yn gweithio nodwch fanylion yr ymddygiad annerbyniol, pryd mae'n digwydd ac am ba hyd – gallwch gael ffurflen cofnodi gan ein swyddogion i'ch helpu gyda hyn
- Cysylltwch gyda'n tîm Gwasanaethau Bro

- Cysylltwch â'r awdurdod lleol, mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i ymchwilio i gwynion am niwsans sŵn

Beth allwn ni wneud:

- Gwneud asesiad cychwynnol o'ch adroddiadau
- Cymryd camau i leihau unrhyw risg i'ch diogelwch chi gydag asiantaethau eraill fel yr Heddlu
- Trin eich cwynion yn gyfrinachol
- Gofyn i chi wneud cofnod o bob digwyddiad
- Eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau

Os yw'r broblem yn ddifrifol ac yn parhau byddwn yn ystyried cymryd camau cyfreithiol. Gall hyn gynnwys gofyn i lys israddio tenantiaeth aswiriedig neu wneud cais am waharddiad. Y llynedd fe ddeliodd y tîm gyda dros 400 achos yn amrywio o ymddygiad gwrthgymdeithasol i gwynion llai difrifol fel gerddi blêr ac ysbwriel. Ble mae'n bosib byddwn yn ceisio bod yn ganolwr mewn anghydfod cymunedol fel hyn.

Ein nod yw dod o hyd i ateb i'r sefyllfaoedd hyn heb droi at y gyfraith, ond weithiau nid yw hyn yn ddigon. Mae CCG wedi bod yn gwneud defnydd o Waharddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn erbyn unigolion sy'n achosi niwsans i denantiaid ar ein stadau. Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth eleni cafodd 16 gorchymyn fel hyn eu defnyddio.

Geraint Jones yw Rheolwr Gwasanaethau Bro, dywedodd: "Dim ond os yw bob dim arall yn methu y byddwn yn troi pobl allan o'u cartrefi ac israddio tenantiaethau, ond os oes digon o dystiolaeth byddwn yn gwneud defnydd o'r pwerau hyn. Rydym yn gweithio yn ein cymunedau trwy'r amser i daclo gwir achos ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda phrosiectau fel ein cynllun Wardeniaid Ifanc sy'n targedu plant ysgol er mwyn eu dysgu am effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar unigolion a'r gymuned. Rydym hefyd yn rhoi cefnogaeth i denantiaid newydd i ddeall sut i fod yn gymydog cyfrifol ac i gynnal eu tenantiaethau. Mae'r Wardeniaid Cymunedol yn monitro blwyddyn gyntaf pob tenantiaeth newydd gyda ymweliadau cyson fel y gallwn adnabod problemau yn fuan."

Os ydych yn poeni ac yn cael eich effeithio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol yna cysylltwch â ni ar 0300 123 8084 a gofynnwch am ein tîm Gwasanaethau Bro.

Arwel Williams, Warden Cymunedol CCG, ardal Meirionnydd

RHESTR TAI CYFFREDIN

Fis Medi eleni bydd Rhestr Tai Cyffredin Gwynedd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y pedair cymdeithas tai sy'n gweithredu yn y sir. Mae tîm gosod CCG wedi bod yn gweithio ar y prosiect hwn ers amser, a bydd yn golygu bod holl geisiadau am dai cymdeithasol yn mynd i un lle.

Y gobaith yw y bydd y broses o ymgeisio am dŷ yn fwy syml dan y drefn newydd gydag un polisi gosod ar gyfer Gwynedd gyfan. Bydd tîm newydd yn gyfrifol am dderbyn yr holl geisiadau, sef y Tîm Opsiynau Tai, wedi eu lleoli gyda gwasanaeth digartrefedd y Cyngor ym Mhenrallt, Caernarfon.

Pan fydd y system newydd wedi ei chyflwyno dim ond un ffurflen gais fydd rhaid i ddarpar denantiaid ei llenwi, bydd y wybodaeth yn cael ei rannu rhwng y Cymdeithasau Tai gan ddefnyddio un system bwyntiau.

Mae'r fenter yn bartneriaeth rhwng CCG; Cymdeithas Tai Eryri; Cymdeithas Tai Clwyd; Tai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd.

100% i'r tîm nwy

Mae CCG wedi llwyddo i gael record 100% yn gwasanaethu gosodiadau nwy naturiol (mains) diolch i waith caled ein staff, ein contractwyr PH Jones a chymorth tenantiaid.
Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob cartref cymdeithas dai sydd â boeler, mesurydd neu beiriannau nwy gael prawf diogelwch blynyddol a thystysgrif diogelwch. Mae tîm o naw o weithiwyr PH Jones yn gweithio'n agos gyda staff CCG er mwyn gwasanaethu dros 4,600 o'n cartrefi ar draws Gwynedd. Mae diogelwch nwy yng nghartrefi ein tenantiaid yn bwysig iawn i ni yn CCG ac mae'r profion hyn yn rhan bwysig o hynny.

Tîm CCG a PH Jones fu'n gweithio ar y cynllun

Meddai Mick Butler, Cyfarwyddwr Asedau CCG: "Rwy'n awyddus i ganmol y tîm yn CCG a PH Jones am eu gwaith caled ar hwn. Dyma'r tro cyntaf mae wedi digwydd, ac mae'n gam pwysig ymlaen i ni fel cwmni. Hoffwn hefyd ddiolch i denantiaid am gyd-weithio efo ni a sicrhau ein bod yn cyrraedd 100%."

Cymorth i denantiaid bregus o gwmpas y tŷ

O hyn ymlaen bydd tenantiaid bregus a'r henoed yn gallu manteisio ar wasanaeth newydd sbon fydd yn cynnig cymorth i wneud gwaith DIY a manion o gwmpas y tŷ.

Fel rhan o'i ymrwymiad i denantiaid cyn trosglwyddo cartrefi o'r Cyngor gwnaeth CCG addewid y byddai'n edrych ar ddatblygu gwasanaeth *Handyman* neu grefftwr yn arbennig ar gyfer tenantiaid hŷn, bregus ac anabl.

Rhai o'r pethau sy'n rhan o'r cynllun:

- Newid bylbs trydan a ffiwsys
- Gosod larymau mwg
- Gosod cloch drws
- Gwaedu rheiddiaduron
- Gosod llenni a silffoedd
- Symud ac adeiladu dodrefn syml
- Newid sedd toiled
- Newid plwg
- Paentio ardaloedd bychain

Dywedodd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Mae hwn yn gynllun cyffrous, ac rwy'n edrych ymlaen i'r gwaith yma gychwyn. Byddwn yn annog unrhyw un sy'n cwrdd â meini prawf y cynllun i gysylltu efo ni i gael gwybod mwy am y gwasanaeth. Ni fydd y gwasanaeth crefftwr yma yn disodlu unrhyw waith trwsio ymatebol, ac ni fydd y gwaith yn cael ei gyfri fel gwaith brys. Ond yn sicr bydd yn cynnig tawelwch meddwl i lawer sy'n cael trafferth ar hyn o bryd i wneud y gwaith DIY ogwmpas y tŷ y byddai llawer ohonom yn ei gael yn hawdd."

Graham Hughes, 'Handyman' CCG

Miri ar y Maes yng Nglynllifon

Daeth nifer o denantiaid i'n gweld ar faes Eisteddfod yr Urdd fis Mehefin ar dir Glynllifon, ger Caernarfon. Er y gwynt a'r glaw roedd y digwyddiad yn llwyddiant a braf oedd cael gweld llawer o'n cwsmeriaid a'n partneriaid wyneb yn wyneb. Dyma rai o luniau o'r ŵyl.

Tîm gwasanaethau cwsmer newydd

Rydym wedi cychwyn ar gynllun i ddatblygu'r ffordd rydym yn delio gyda galwadau ffôn cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Ar hyn o bryd mae gan CCG ddau dîm gofal cwsmer – un yn delio gyda galwadau trwsio a chynnal a chadw a'r llall yn delio gyda phob ymholiad arall. Yn dilyn ymgynghori gyda staff a thenantiaid mae'n amlwg nad yw'r drefn yma'n ein galluogi i roi'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid. Rydym felly yn bwriadu uno'r ddau dîm gan greu un tîm gwasanaethau cwsmer newydd a dysgu staff i ddelio gyda'r mwyafrif o alwadau y tro cyntaf y mae tenant yn ffonio.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich sylwadau ar y cynllun felly os ydych eisiau mwy o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch gyda Mared Dafydd ein Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer ar 0300 123 8084 neu gwasanaethau.cwsmer@ccgwynedd.org.uk.

£250,000 i wella'r gymuned

Beth fyddech chi'n ei wneud gyda £1,000, £5,000 neu hyd yn oed £10,000? Oes gennych chi syniad a fyddai'n gwella eich cymuned chi?

Mae CCG yn cynnig grant o hyd at £10,000 i grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynnal digwyddiad, darparu hyfforddiant, gwella cyfleusterau neu tuag at brosiect sy'n gwella'u hamgylchedd neu sydd o fudd i'w cymuned. Mae'r grant hwn ar gael fel rhan o ymrwymiad CCG i ddatblygu a gwella cymunedau gyda £250,000 ar gael yn flynyddol trwy'r Gronfa Budd Cymunedol.

Os yr hoffech fwy o wybodaeth am Gronfa Budd Cymunedol CCG neu i wneud cais am arian o'r gronfa cysylltwch â Mantell Gwynedd sy'n gweinyddu'r gronfa ar ein rhan ar 01286 672626.

Tudalen y Plant

Croeso yn ôl i dudalen ein tenantiaid iau!

A	O	H	D	L	G	I	P
L	U	A	I	L	Y	W	G
S	O	U	Y	S	T	C	D
M	A	L	D	D	M	A	P
O	C	U	E	U	I	C	L
R	R	C	T	R	H	A	W
T	W	C	S	D	O	M	S
B	A	T	R	A	E	T	H

Chwilair yr haf...

HAUL
TRAETH
GWYLIAU
BWCED
RHAW
MÔR

Beth am liwio llun o hufen iâ ?

SWDOCW

4			1
	1	3	
	4	1	
1			3

3	4	1	2
4	2	3	1

Milcshêc banana

1 banana
Pot o iogwrt o unrhyw flas (tua 150g)
½ peint o lefrith

Wedi tynnu croen y banana, sleisiwch a'i roi mewn peiriant cymysgu gyda'r llefrith a'r iogwrt. Cymysgwch am 1 -2 funud er mwyn gwneud milcshêc blasus ac yna ei dywallt i wydr. Mae'n barod i'w yfed!

Llais Tenantiaid

Dyma dudalen yn arbennig ar gyfer eich erthyglau chi, felly cofiwch anfon eich straeon a'ch lluniau at **cyfathrebu@ccgwynedd.org.uk**

Cyfnod prysur i CCG

Adroddiad Blynyddol gan Colin Hughes, Cadeirydd Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG.

Colin Hughes

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod prysur iawn i CCG ac i ninnau fel aelodau'r Bartneriaeth. 'Rydym wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod y cyfnod hwn yn CCG ac yn ein rôl ni fel cynrychiolwyr tenantiaid.

Grwpiau a fforymau
Mae ein grwpiau â'n fforymau bellach wedi'u sefydlu a rhyngom 'rydym wedi bod i 44 o gyfarfodydd. Hefyd, rydym wedi bod i gyfarfodydd Bwrdd CCG, Grŵp Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol a sesiynau hyfforddiant.

Lleoliadau cyfarfodydd
'Rydym wedi ymweld ag amryw o leoliadau ar draws Gwynedd gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Penrhyndeudraeth, Dolgellau, Porthmadog, Llanwnda a Llanllyfni. Y bwriad yw ymweld ag ardal Y Bala a Blaenau Ffestiniog yn ogystal ag ardal Dyffryn Ardudwy, Y Bermo a Harlech yn ystod 2012/2013.

Aelodau
Mae 33 aelod gwahanol wedi bod yn ein cyfarfodydd ond y gobaith yw i ehangu ein haelodaeth yn y flwyddyn nesaf. Mae CCG wedi cynhyrchu llyfryn 'Cymryd Rhan gyda CCG', cafodd hwn ei ddosbarthu am y tro cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd. Gobeithio bydd hwn yn ein helpu i ddenu aelodau newydd.

Hyfforddiant
Fe wnaethom fynychu amryw o weithdai a sesiynau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ac mae aelodau wedi bod yng nghynhadledd flynyddol TPAS Cymru a gweithdai Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yn ystod y flwyddyn yn cynrychioli'r Bartneriaeth.

Logo newydd
Tua diwedd 2011/12, fe lansiwyd logo newydd y Bartneriaeth. Mae hyn wedi'n galluogi ni i gynhyrchu deunydd marchnata fel baneri, beiros a phensilaiau ac ati er mwyn codi proffil y Bartneriaeth.

Digwyddiadau
Fe fynychodd y Bartneriaeth ddigwyddiad 'Hwyl yr Wŷl' CCG dros gyfnod y Nadolig ac Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin. Ein gobaith yw mynd i ddigwyddiadau tebyg dros y flwyddyn nesaf.

Fel Cadeirydd y Bartneriaeth, hoffwn ddiolch i bawb am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud gwahaniaeth i safon byw ein cyd denantiaid a phreswylwyr ar draws Gwynedd.

Colin Hughes

Cadeirydd PTP

Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG
CCG Tenants & Residents Partnership

Cyfarfod nesaf Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG ar **y 26ain o Orffennaf** yn **Nghanolfan Congl Meinicau ym Motwnnog**. Croeso cynnes i bawb. Am wybodaeth ffoniwch y Tîm Cyswllt Cymunedol ar **0300 123 8084**.

Aelodau'r PTP